Asesu

- Elfen Asesu 2 :PortffolioTystiolaeth–60%

- Tasg 1: Dewis thema addas i'w chyflwyno i grŵp o blant gan greu dau weithgaredd gwahaniaethol i'w cyflwyno iddynt. Dylid nodi'r rhesymeg dros ddewis y thema a'r prif nodau ynghlwm wrth y gweithgareddau. Dylid nodi'r gynulleidfa arfaethedig, a'r math o gyfleoedd addysgu iaith y byddai'r gweithgareddau yn eu cynnig wrth addysgu'r Gymraeg. (hyd at 400 gair)

- Tasg 2: Cyflwyno sesiwn thematig a dau weithgaredd gwahaniaethol i grŵp o blant yn ystod eich cyfnod PAP. Bydd angen i chi ffilmio'r sesiwn a'r gweithgareddau i'w dadansoddi gennych ac i'w cyflwyno fel rhan o asesiad y modwl. (hyd at 8 munud)

- Tasg 3: Adfyfyriad ysgrifenedig ar dasg 2 (hyd at 1600 gair)

Dylid ffilmio'r sesiwn thematig yn cynnwys y gweithgareddau a'u llwytho ar 'You Tube' i'w cyflwyno fel linc yn y ddogfen a gyflwynir drwy Turnitin.

Eich cyfrifoldeb chi ydy sicrhau bod y linc 'You Tube' yn gweithio.